



# **RHONDDA CYNON TAF**

## **STRATEGAETH GAFFAEL**

**2017 – 2020**

## CYNNWYS

Rhagair	3
Crynodeb Gweithredol	4
Cyflwyniad	5
1. Cynorthwyo gwaith cyflwyno blaenoriaethau craidd y Cyngor	6 - 7
2. Hwyluso adfywio economaidd drwy gaffael	8 – 9
3. Cydlafurio â phartneriaid mewnol ac allanol	10 - 11
4. Darparu llywodraethiant mewnol effeithiol	12 - 13
5. Hwyluso Caffael Electronig cost-effeithiol	14
6. Gweithredu a chefnogi egwyddorion Polisi Caffael Llywodraeth Cymru a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015	15 – 18
7. Crynodeb y Themâu Strategol	19

## **Rhagair**

Un o'r Cynghorau mwyaf yng Nghymru yw Cyngor Rhondda Cynon Taf, gyda gwariant blynyddol o dros £187miliwn (i 2016/17) ar nwyddau, gweithiau, a gwasanaethau o gyrff allanol. Mae'r Cyngor yn cydnabod y rôl allweddol sydd gan Wasanaeth Caffael effeithlon ac effeithiol yn cynorthwyo gwaith cyflwyno ein gwasanaethau a blaenoriaethau allweddol.

Mae'r Strategaeth hon yn amlinellu ein blaenoriaethau Caffael i 2017 – 2020, gan ddangos sut y byddant yn cynorthwyo ac ategu blaenoriaethau craidd y Cyngor i gwaith cyflwyno gwasanaethau rheng flaen, gan sicrhau gwerth masnachol am arian, a'r un pryd yn bodloni ein gofynion deddfwriaethol hefyd.

Mae'r Strategaeth hon yn cwmpasu tair blaenoriaeth Cynllun Corfforaethol y Cyngor, sef Economi, Pobl, a Lle, gyda rhwymedigaethau Llywodraeth Cymru yn Natganiad Polisi Caffael Llywodraeth Cymru, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a Chod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesebol mewn Cadwyni Cyflenwi.

Mae'r Strategaeth yn canolbwyntio ar chwe thema strategol yn amlinellu gweithredoedd ac egwyddorion allweddol, i'w cyflwyno dros gyfnod y Strategaeth.

Dyma'r themâu:

- Cynorthwyo cyflwyno blaenoriaethau craidd y Cyngor;
- Hwyluso adfywio economaidd drwy waith caffael;
- Cydlafurio â phartneriaid mewnol ac allanol;
- Darparu llywodraethiant mewnol effeithiol;
- Hwyluso Caffael Electronig cost-effeithiol; a
- Gweithredu a chynorthwyo egwyddorion Polisi Caffael Llywodraeth Cymru a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae ein Strategaeth yn cydnabod y rôl gritigol allweddol y mae Caffael yn ei chyflawni wrth hwyluso a thanategu gwaith cyflwyno gwasanaethau'r Cyngor a'r Cynllun Corfforaethol. Mi wn i, fel Aelod o'r Cabinet sydd â chyfrifoldeb dros faterion Caffael, fod Aelodau a Swyddogion fel ei gilydd wedi ymrwymo i gyflwyno'r Strategaeth newydd hon yn llwyddiannus.

Y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol Mark Norris (Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Corfforaethol gyda chyfrifoldeb ar faterion caffael)

## **Crynodeb Gweithredol**

Nod y strategaeth gaffael hon yw pennu fframwaith glir i gaffael ym mhob rhan o'r Cyngor, yn adlewyrchu Cynllun Corfforaethol a blaenoriaethau allweddol y Cyngor.

Mae'r Strategaeth yn cyd-fynd yn gydnaws â Chyfansoddiad, Rheolau Gweithdrefn Contract, a Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor. Mae'n darparu fframwaith gyffredin i bob gwaith rheoli caffael, gyda ffocws ar gynorthwyo blaenoriaethau allweddol y Cyngor, sef Economi, Pobl, a Lle, ac ar gyflwyno gwerth am arian drwy waith caffael effeithiol dros y cyfnod.

Cafodd y Strategaeth Gaffael yma ei gosod yn ystod cyfnod parhaus o galedi, llymder, a chyni yn y Sector Cyhoeddus. Mae llywodraeth leol yn gyffredinol, a'r Cyngor yma yn benodol, yn wynebu mwy o bwyso i gyflwyno gwasanaethau gwerth ychwanegol yn erbyn cefndir o setliadau cyllideb sy'n lleihau.

Mae dull ymagweddu strategol wedi'i aildrefnu, a Gwasanaeth Caffael wedi'i i ail-lunio, yn rhan bwysig o waith cyflwyno cynllun cynnal gwasanaethau dros y cyfnod. Bydd hyn, yn ei dro, yn cynorthwyo'r Cyngor i gyflwyno'i flaenoriaethau strategol.

Mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen am newid ac am y gallu i ymateb yn effeithiol i bwysau gwleidyddol, masnachol, economaidd, a chymdeithasol. Bydd gwaith caffael effeithlon, effeithiol, ac arloesol yn galluogi'r Cyngor i drawsffurfio gwasanaethau, gwella gwaith darparu nwyddau a gwasanaethau, sbarduno prosesau safonol, syml, a diwastraff, dileu arferion gwastraffus, darparu gwerth gorau, a datblygu cadwyni cyflenwi lleol cryf a bywiog.

Yn ogystal â hynny, mae'r Strategaeth Gaffael yn fodd i'r Gwasanaeth Caffael allu cynorthwyo a hwyluso gwaith cyflwyno cyfleoedd am lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol, a diwylliannol. Mae modd gwireddu'r cyfleoedd a manteision yma drwy annog busnesau lleol i fasnachu gyda'r Cyngor, gan sicrhau'r cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant mwyaf posibl er budd yr economi leol, a chomisiynu gwasanaethau o ansawdd da sy'n gynaliadwy at y dyfodol wrth gynorthwyo gwaith cyflwyno blaenoriaethau Cyngor Rhondda Cynon Taf.

## **Cyflwyniad**

Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf yn gwario dros £187miliwn bob blwyddyn ar nwyddau, gwasanaethau, a gweithiau gyda thros 5,000 o gyflenwyr. Mae'n ofynnol i'r Cyngor ddangos iddo sicrhau gwerth am arian i'r gymuned, gan ofalu fod y gwasanaethau gorau posibl wedi'u caffael ar y telerau mwyaf manteisiol yn economaidd, a hynny mewn ffordd sy'n sicrhau'r atebolrwydd llawnaf, ac hefyd gydymffurfedd â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol, ac yn cynorthwyo cyflwyno blaenoriaethau'r Cyngor.

Mae gwaith caffael yn rhychwantu'r cylch bywyd cyfan, o adnabod anghenion drwodd hyd at ddiwedd contract. Mae gan y Gwasanaeth Caffael Corfforaethol rôl allweddol yn y broses hon i bob un o feysydd wariant y Cyngor.

Yng nghyd-destun cyllidebau llai, a galw cynyddol am wasanaethau, rhaid rheoli pob maes o wariant y Cyngor mewn modd effeithlon ac effeithiol. Cyfrifoldeb y Gwasanaeth Caffael yw galluogi a hwyluso gwaith caffael, comisiynu, a rheoli contract trylwyr ac effeithiol.

Mae'r Gwasanaeth Caffael yn gyfrifol am strategaeth a pholisi caffael, effeithlonrwydd caffael, arloesi, gwella, a chyflwyno prosiectau caffael rhyng-wasanaeth, gan gynnwys rhyngwynebau gyda chyflenwyr a darparwyr er mwyn sicrhau cael manteision cymdeithasol, economaidd, ac amgylcheddol ehangach i Riondda Cynon Taf.

Yn ogystal â hyn i gyd, mae'r Gwasanaeth yn gweithredu fel canolfan arbenigedd ar gyfer cyngor ac arfer gorau o fewn y Cyngor, ac hefyd fel man cyswllt â Llywodraeth Ganolog ar gyfer pob gweithgaredd caffael.

Mae pob maes gwasanaeth yn dibynnu ar gyrff allanol am ddarparu nwyddau, gwasanaethau, a gweithiau a brynwyd i mewn. Mae'n bwysig felly, i gael strategaeth glir er mwyn hwyluso, cynllunio, a rheoli'r defnydd o'r adnoddau hyn.

Mae'r Strategaeth hon yn pennu'r weledigaeth a'r cyfeiriad ar gyfer gweithgaredd caffael ym mhob rhan o'r Cyngor. Ei nod yw hyrwyddo'r gweithgareddau hyn fel ffactorau sbarduno ar gyfer trawsffurfio gwasanaethau'r Cyngor.

## 1. Cynorthwyo gwaith cyflwyno blaenoriaethau Craidd y Cyngor.

Mae'r weledigaeth dymor hir a'r pwrpas ar gyfer Cyngor Rhondda Cynon Taf wedi'u pennu yn nogfen Cynllun Corfforaethol 2016-2020, fel a ganlyn:


### **Gweledigaeth**

*"Bod yn Fwrdeistref Sirol sydd â dyheadau uchel, sy'n hyderus ac sy'n hyrwyddo cyfle i bawb."*

### **Pwrpas**

*"Darparu arweinyddiaeth gymunedol gref a gwasanaethau effeithiol ar gyfer pobl Rhondda Cynon Taf i'w galluogi i gyflawni eu potensial ac i ffynnu."*

Mae'r Cyngor yn canolbwyntio ar y tair blaenoriaeth ganlynol



Bydd strategaeth gaffael effeithiol yn cynorthwyo i sicrhau cyflwyno'r blaenoriaethau hyn drwy:

- **Canolbwyntio ar alw, angen, a blaenoriaethau ein gwasanaethau a'n cymunedau** a gweithio gyda'n partneriaid, rhanddeiliaid, a chontractwyr er mwyn cyflwyno gwasanaethau sy'n gwella canlyniadau ac yn darparu gwell effeithlonrwydd.
- Sefydlu **dulliau ymagweddu caffael a chomisiynu clir a thrylwyr** sy'n gwneud y defnydd gorau o adnoddau, ac yn cynorthwyo i lywio gwaith cyflwyno gwasanaethau er mwyn bodloni anghenion preswylwyr, cwsmeriaid, a chymunedau.
- Cynorthwyo i **sicrhau gostwng costau, a'r un pryd yn gwella ansawdd cyflwyno gwasanaethu** i breswylwyr Rhondda Cynon Taf, a'r un pryd hefyd yn sicrhau canlyniadau cynaliadwy i'r ardal leol ac i genedlaethau'r dyfodol.
- Datblygu **cadwyni cyflenwi gwydn, dibynadwy, a bywiog** sydd â'r gallu i gyflwyno gwasanaethau sy'n bodloni anghenion a gofynion ein cymunedau nawr ac yn y dyfodol hefyd.

- Sefydlu dulliau ymagweddu caffael sy'n **sicrhau trefnu manteision cymdeithasol, economaidd, ac amgylcheddol ehangach i Riondda Cynon Taf.**
- Sefydlu systemau a phrosesau caffael clyfrach ac effeithiol sy'n cyfrannu at **effeithlonrwydd ac at welliannau ansawdd**, a'r un pryd hefyd yn sicrhau cael trefniadau llywodraethiant ac atebolrwydd cadarn.
- Darparu dull ymagweddu strategol a holistig at bob agwedd ar wariant y Cyngor, a llywio marchnadoedd cyflenwi er mwyn **gofalu fod adnoddau yn cael eu hymrwymo yn gost-effeithiol er mwyn bodloni anghenion y Cyngor nawr ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.**
- **Galluogi Adrannau gweithrediadol i gwrdd â heriau amcanion cynlluniau cyflwyno gwasanaethau** sydd yn eu tro yn cynorthwyo blaenoriaethau ehangach y Cynllun Corfforaethol.
- Datblygu a chyflwyno trefniadau contractol sy'n cynorthwyo perfformiad gweithrediadol Gwasanaethau, ac yn **sicrhau cydymffurfiad â Chyfarwyddebau Caffael yr Undeb Ewropeaidd, a'r gwahanol Reoliadau Contractau Cyhoeddus** yn unol â gofynion Rheolau Gweithdrefn Contract y Cyngor ei hun.

## **2. Hwyluso adfywio economaidd drwy gaffael**

Mae 'Adeiladu economi gref' a darparu twf economaidd yn feysydd blaenoriaeth allweddol ar gyfer y Cyngor. Rhaid i ddull ymagweddu'r Cyngor a'i drefniadau comisiynu gynorthwyo'r blaenoriaethau hyn drwy ganolbwyntio ar alw, angen, a blaenoriaethau ein cymunedau nawr ac yn y dyfodol. Dylai'r dulliau ymagweddu hyn ystyried hefyd sut y gallai'r Cyngor fwrw ati i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol, a diwylliannol yr ardal leol.

Proses yw caffael cynaliadwy lle mae cyrff yn bodloni'u hanghenion am nwyddau, gwasanaethau, gwaith, a chyfleustodau mewn ffordd sy'n llwyddo i gyflawni gwerth am arian ar sail bywyd cyfan, o ran cynhyrchu manteision nid i'r Cyngor yn unig, ond i'r gymdeithas a'r economi hefyd, a'r un pryd yn cadw difrod i'r amgylchedd i'r lleiaf posibl.

Bydd cynorthwyo gwaith cyflwyno manteision cymdeithasol ac economaidd ehangach i'n cymunedau yn flaenoriaeth allweddol i'r Gwasanaeth Caffael ac i'n rhanddeiliaid.

Mae gan y Gwasanaeth Caffael Corfforaethol rôl bwysig wrth gynorthwyo gwaith cyflawni'r blaenoriaethau hyn drwy:

- Dilyn egwyddorion Datganiad Polisi Caffael Cymru (DPCC).
- Sefydlu prosesau ac arferion caffael sy'n sicrhau strategaethau cyrchu wedi'u datblygu gan ystyried materion cymdeithasol, economaidd, ac amgylcheddol, cynladwyedd lleol, cydraddoldeb, ac amrywiaeth.
- Cynorthwyo gwaith cyflawni Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 drwy ymgorffori egwyddorion cynaliadwy a Buddion i'r Gymuned ym mhob contract addas.
- Gweithredu Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo i sicrhau fod gweithwyr mewn cadwyni cyflenwi sector cyhoeddus yn cael eu cyflogi mewn ffordd deg a moesegol.
- Gweithio gyda'n partneriaid a chyda Gwasanaeth Adfywio a Chynllunio y Cyngor er mwyn cynorthwyo, datblygu, a gwella cyfleoedd adfywio o bwys ar gyfer datblygu'r economi er budd cymunedau yn Rhondda Cynon Taf.
- Cynorthwyo cyflawni gwaith darparu rhaglifen drawsffurfiol Ysgolion yr 21ain ganrif yn Rhondda Cynon Taf drwy ddarparu cymorth caffael i amryw o wahanol brosiectau Ysgolion yr 21ain ganrif.
- Darparu cymorth caffael i brosiectau seilwaith, gan gynnwys fel canlyniadau i Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, a fydd yn golygu arwain at buddsoddi sylweddol a helaeth mewn seilwaith a busnes yn Rhondda Cynon Taf fel rhan o trefniad partneriaeth cyffredin a



rennir rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, awdurdodau lleol partner, a Llywodraeth Cymru.

- Galluogi busnesau a mentrau bach a chanolig lleol i gael manteisio ar gyfleoedd contract, gan gynnwys drwy hwyluso Digwyddiadau Datblygu Cyflenwyr, a Gweithdai Cyflenwyr estyn allan atodol sy'n galluogi mentrau bach a chanolig, busnesau, ac is-gontractwyr lleol i ennill mynediad gwell i gyrchu cyfleoedd contract gwell gyda'r Cyngor, fel darparwyr Haen 1 neu Haen 2.
- Defnyddio cymalau budd cymunedol ym mhob un o holl gontractau addas er mwyn cynhyrchu cyfleoedd cyflogaeth i bobl leol, a chyflwyno mentrau eraill sydd hefyd yn dod â manteision i gymunedau lleol.

### **3. Cydlafurio â phartneriaid mewnol ac allanol**

Mae Gwasanaeth Caffael wedi'i aildrefnu wedi'n galluogi i ganolbwyntio gwaith cyflwyno gwasanaethau yn uniongyrchol ar gynorthwyo blaenoriaethau ac amcanion y Cyngor a'r un pryd yn darparu gwell cymorth i feysydd gwasanaeth mewnol ym mhob rhan o'r Cyngor hefyd, a galluogi'r rheiny i ymgymryd â gwneud gwaith caffael effeithiol. Yn ogystal â hyn i gyd, mae'r Cyngor yn parhau i wneud defnydd o'i cysylltiadau a chydberthnasau cydweithredol â partneriaid o randdeiliaid allanol allweddol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru drwy'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol er mwyn dod â dylanwad a chyflwyno manteision lleol.

Mae gan y Gwasanaeth Caffael Corfforaethol rôl allweddol yng ngwaith cynorthwyo pob un o holl feysydd wariant y Cyngor. Bydd yn gwasanaethu fel gwasanaeth canolog strategol, yn darparu gwasanaeth rheoli ar weithgareddau gwariant dros £15,000, arbenigedd ac arferion gorau technegol, a'r un pryd yn cynorthwyo gyda gofynion caffael gweithrediadol hefyd ym mhob rhan o'r Cyngor ehangach.

Mae cydlafurio yn egwyddor allweddol i'w chyflawni ym Mholisi Caffael Cymru. Mae hyn yn gosod disgwyliad ar bob un o'r holl Awdurdodau Lleol i **fynd i'r afael â meysydd gwariant cyffredin. Mae dull ymagweddu cydweithredol yn cynorthwyo i sicrhau'r canlynol:**

- **Y defnydd mwyaf posibl** o feysydd gwariant cyffredin er mwyn gyrru arbedion effeithlonrwydd mwy.
- **Lleihau dyblygu** rhwng consortiymau prynu.
- **Cyflawni manteision gwerth am arian** i Gyngor Rhondda Cynon Taf wrth brynu nwyddau a gwasanaethau cyffredin.

Mae'r Gwasanaeth yn cydnabod yr angen i weithio yn effeithiol mewn cydweithrediad â'n rhanddeiliaid mewnol, yn ogystal ag aelodau eraill o Sector Cyhoeddus Cymru, gan gynnwys y canlynol, er mwyn sicrhau'r arbedion effeithlonrwydd mwyaf posibl, a chyflwyno prosesau a thechnegau cyrchu sy'n cyfrannu yn effeithlon at flaenoriaethau ac amcanion y Cyngor:

- **Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (GCC/NPS):** nod hwn yw sicrhau'r manteision mwyaf o'r dull ymagweddu cydweithredol yma i Gyngor Rhondda Cynon Taf, drwy ddefnyddio trefniadau Fframwaith addas a phriodol.
- **Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC/WLGA)** Parhawn i wneud defnydd o hon fel llwyfan rhwydweithio, gan weithredu fel un o'r cyrff sy'n aelodau o gymuned ehangach yr Awdurdodau Lleol er mwyn rhannu arfer gorau ac arbenigedd caffael.
- **Fframweithiau adeiladu Mawr:** Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf yn dal yn rhanddeiliad allweddol ac ymrwymedig o hyd o fewn Fframwaith Ysgolion ac Adeiladau Cyhoeddus De-ddwyrain Cymru (SEWSCAP) ac yng nghontractau Priffyrdd De-ddwyrain Cymru (PDDdC) ac

yn parhau i ddefnyddio'r Fframweithiau hyn er mwyn cynorthwyo cyflawniad o Ysgolion yr 21ain Ganrif, Priffyrdd, a phrosiectau seilwaith.

- **Comisiynu Gofal Cymdeithasol:** Mae'r Gwasanaeth wedi gosod blaenoriaethau clir ar gyfer *'gweithio gyda'n partneriaid comisiynu i sicrhau fod manylebau ar gyfer gwasanaethau dan gontract yn canolbwyntio ar y dinesydd, yn hyblyg, ac yn gallu ymateb i anghenion personau unigol'*. Byddwn ni'n parhau, drwy ein dulliau ymagweddu comisiynu a chaffael i sicrhau caffael y gwasanaethau gorau posibl, a'r rheiny o ansawdd da, yn cynrychioli gwerth am arian, ac yn llwyddo i gyflawni canlyniadau cadarnhaol i'r preswylwyr.
- **Gwasanaeth eGaffael (EPS)** Mae'r Gwasanaeth yn parhau i ymgysylltu â phecyn cymorth canolog Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo i hwyluso ei uchelgeisiau e-Gaffael, a'n blaenoriaeth allweddol ni *'Cyflawni Caffael Callach'*. Byddwn ni'n parhau i wneud defnydd effeithiol o'r holl atebion e-gaffael sydd ar gael, fel modd effeithlon i drawsffurfio'r ffordd y mae'r Cyngor yn rheoli'i berthynas â chyflenwyr a'i drefniadau ynghylch trafodion.
- **Bargen Ddinesig Prifddinas-ranbarth Caerdydd** Darparu cymorth caffael i brosiectau seilwaith, gan gynnwys fel canlyniadau i Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, a fydd yn golygu arwain at buddsoddi helaeth mewn seilwaith a busnes yn Rhondda Cynon Taf fel rhan o trefniad partneriaeth cyffredin a rennir rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, awdurdodau lleol partner, a Llywodraeth Cymru.
- **Consortiwm Canolbarth y De / Gwasanaeth Addysg ar y Cyd (CSC/JES):** Mae'r Gwasanaeth yn parhau i gefnogi anghenion a gofynion caffael Consortiwm Canolbarth y De / Gwasanaeth Addysg ar y Cyd, gan ddarparu cyngor, cymorth, a chefnogaeth at ddefnydd gweithwyr ymgynghori asiantaeth neu arbenigol.
- **Gweithio ar y Cyd â Chyngor Merthyr Tudful:** Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf yn parhau i gydweithio'n agos â Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ar nifer o gyfleoedd contractio gweithrediadol, pan fo'r rheiny yn cael eu nodi.

## **4. Darparu trefniadau llywodraethu mewnol effeithiol**

### **Gwariant y Cyngor a'r Gwasanaeth Caffael**

Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf yn gwario mwy na £187 miliwn bob blwyddyn ar nwyddau, gwasanaethau, gwaith gyda thros 5,000 o gyflenwyr. Mae'n ofynnol i'r Cyngor ddangos iddo sicrhau gwerth am arian, gan sicrhau fod y gwasanaethau gorau posibl wedi'u caffael ar y telerau mwyaf manteisiol yn economaidd, a hynny mewn ffordd sy'n sicrhau'r atebolrwydd llawnaf, ac hefyd gydymffurfedd â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol.

### **Darparu trefniadau llywodraethu mewnol effeithiol**

Mae'r Gwasanaeth yn un o'r cyfranwyr a galluogwyr allweddol yng ngwaith cyflawni Cynllun Corfforaethol y Cyngor drwy gynorthwyo meysydd gwasanaeth ym mhob rhan o'r Cyngor â'u gofynion o ran y broses gaffael.

Cafodd dull ymagweddu a chynllun gwaith a ailbroffiliwyd eu hailfodelu er mwyn datblygu dull ymagweddu mwy Rhondda Cynon Taf-ganolog yn well a'r un pryd yn cadw gaffael ar ei gysylltiadau cyfochrog ehangach. Wrth i'r Gwasanaeth gyflawni'r amcan allweddol yma, mae wedi gallu gweithredu arferion a dulliau caffael sy'n parhau i alluogi ein rhanddeiliaid mewnol i wneud defnydd o drefniadau contractol systemau caffael er mwyn darparu gwasanaethau effeithiol i'n preswylwyr, fel y cânt eu gweithredu drwy'r prosesau canlynol:

### **Proses rheoli gwariant dros £15,000 Canoli Gweithgareddau Gwariant Caffael**

Mae'r gofyniad newydd yma o ran y broses yn cyflwyno newid sylweddol mewn gweithdrefnau gweithrediadol a diwylliannol fel ei gilydd, gan alluogi'r Gwasanaeth Caffael i gydweithio'n agos â rhanddeiliaid Maes Gwasanaeth er mwyn cynorthwyo, herio, a chraffu gwariant drwy'r Cyngor i gyd yng nghyd-destun Rheolau Gweithdrefn Contract y Cyngor (fel y'u harolygwyd ac y'u hadolygwyd yn 2017) a gwahanol agweddau'r fframwaith cyfreithiol lle mae'n gweithredu.

Y dull a dylanwad 'o'r canol' fydd wrth graidd y strategaeth gaffael yn y dyfodol, ac yn cynorthwyo gwaith gwneud penderfyniadau a blaenoriaethu adnoddau, yn ogystal â nodi cyfleoedd i wella, neu weithgareddau caffael nad yw'n cydymffurfio. Bydd y dull yma yn darparu llwyfan gyson ar gyfer gweithgaredd caffael ym mhob rhan o'r Cyngor, ac yn hwyluso datblygiad mentrau yn y dyfodol a chyfleoedd i wella.

### **Dadansoddi Data a Gwariant**

Bydd gwell defnydd manylach o ddadansoddeg data gwariant yn offeryn strategol allweddol yn y dyfodol.

Bydd cynyddu gwelededd dros wariant heblaw cyflogau'r Cyngor yn fodd i ganiatáu i'r Gwasanaeth gyda rhanddeiliaid mewnol, gyda'r nod o nodi cyfleoedd effeithlonrwydd mewn ffordd ragweithiol, herio diffyg cydymffurfio, a chynorthwyo meysydd gwasanaeth gyda'u gofynion caffael, yn ogystal â sicrhau fod pob un o holl feysydd yn dod o dan drefniadau contractol cadarn a chydymffurfio.

### **Gweithredu a chyflwyno'r System Rheoli Contractau**

Datblygu rhaglen gyflwyno bwyllog a chytbwys ar gyfer gweithredu System Rheoli Contractau Cyngor Rhondda Cynon Taf (Bravo) yn ehangach i feysydd gwasanaeth datganoledig a bennir gan alluogi'r Gwasanaeth i wneud gwell defnydd o'r offer e-gaffael sydd ar gael, a'r un pryd yn lleihau'r amser a gymerir i ymgymryd â gwneud gweithgaredd caffael.

### **Systemau Prynu Deinamig (SPD)**

Bydd gweithredu defnydd parhaus o nodweddion effeithiol Systemau Prynu Deinamig (SPDau) er mwyn cynorthwyo gofynion caffael meysydd gwasanaeth yn hwyluso cipio'r farchnad neu ennyn diddordeb yn ehangach. Lle bo'r cyfleoedd hyn yn bodoli, fe ddefnyddir y defnydd o nodweddion effeithiol Systemau Prynu Deinamig er mwyn cynyddu cystadleurwydd a gyrru allan enillion gwerth gorau i Wasanaethau.

## **5. Hwyluso Caffael Electronig cost-effeithiol**

### **e-Gaffael**

Mae Polisi Caffael Llywodraeth Cymru, ac Adroddiad McClelland, yn nodir defnydd o offer e-gaffael fel cyfrwng galluogi allweddol i gynorthwyo'r ymgyrch dros sicrhau arbedion effeithlonrwydd ac arbedion eraill drwy'r broses gaffael.

Mae atebion e-gaffael wedi'u cynnwys yn helaeth yn rhan annatod o isadeiledd ariannol y Cyngor ar gyfer darparu gweithdrefnau effeithlon ac effeithiol a thrawsffurfio'r ffordd y mae'r Cyngor yn rheoli'i berthynas â chyflenwyr a'i drefniadau ynghylch trafodion.

Ar hyn o bryd, mae Cyngor Rhondda Cynon Taf yn defnyddio nifer o atebion e-gaffael fel rhan o Becyn Cymorth System Gaffael Electronig Llywodraeth Cymru:

- **eFasnachu (Porth Masnachu Cyflenwyr Prynu i Dalu neu System Gaffael Electronig):**
- **eFasnachu – Cerdyn Prynu:**
- **eGyrchu (eDendro Cymru - Bravo):**

Mae'r Gwasanaeth Caffael wedi trefnu defnyddio atebion caffael electronig ym mhob rhan o'r Cyngor fel rhan o'i gynllun datblygu strategol, lle pennir canlyniadau gwerth ychwanegol er mwyn sicrhau'r enillion gorau posibl ar fuddsoddiadau. Fe wneir hyn gyda'r nod o ddatblygu gwaith darparu gwasanaethau yn well a hwyluso cynnwys prosesau ac arferion caffael a rheoli contract effeithlon ac effeithiol yn rhan annatod o bob rhan o'r Cyngor.

## **6. Gweithredu a chynorthwyo egwyddorion Polisi Caffael Llywodraeth Cymru a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Gwasanaeth Caffael Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi'u rhwymo gan bolisiau a deddfwriaeth wedi'u lansio a'u cefnogi gan Lywodraeth Cymru.

Dyma dri o ffactorau sbarduno polisiau a deddfwriaeth:

### **Datganiad Polisi Caffael Cymru (DPCC)**

Mae'r polisi yma yn pennu'r egwyddorion a'r disgwyliadau ar gyfer darparu gwaith caffael y sector cyhoeddus yng Nghymru. Rhaid i Wasanaeth Caffael Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, fel corff rhanddeiliaid allweddol, ddatblygu a chyd-drefnu ei weithgareddau caffael, blaenoriaethau, ac amcanion strategol, yn unol â'r egwyddorion yma.

Y deg egwyddor canlynol yw cynnwys Datganiad Polisi Caffael Cymru:

<b>Strategol</b>	Dylai gwaith caffael gael ei gydnabod a'i reoli fel swyddogaeth gorfforaethol strategol sy'n trefnu a deall gwariant; gan ddylanwadu ar y gwaith cynnar o gynllunio a threfnu gwasanaethau a chyfrannu at y broses benderfynu er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion cyffredinol.
<b>Adnoddau proffesiynol</b>	Dylai gwariant caffael fod yn ddarostyngedig i lefel briodol o gyfraniad a dylanwad proffesiynol, gan fabwysiadu'r meincnod cychwynnol o un gweithiwr caffael proffesiynol o leiaf i bob £10 miliwn o wariant ar draws y sector cyhoeddus ehangach.
<b>Effaith Economaidd, Gymdeithasol ac Amgylcheddol</b>	Dylid ystyried Gwerth am Arian fel y cyfuniad gorau posibl o gostau oes gyfan o ran sicrhau arbedion a chanlyniadau o safon uchel ar gyfer y sefydliad, a hefyd dylai fod o fudd i gymdeithas a'r economi a'r amgylchedd yn awr ac yn y dyfodol.
<b>Manteision Cymunedol</b>	Rhaid i gyflawni budd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol trwy gymhwysu polisi Manteision Cymunedol yn effeithiol fod yn rhan annatod o waith caffael.
<b>Cystadleuaeth agored, hygyrch</b>	Dylai cyrff cyhoeddus fabwysiadu dulliau caffael cymesur sy'n seiliedig ar risg i sicrhau bod cyfleoedd contract ar gael i bawb ac nad yw cyflenwyr lleol a llai o faint yn cael eu hatal rhag ennill contractau fel unigolion, fel rhan o gonsortia neu drwy swyddogaethau yn y gadwyn gyflenwi.
<b>Prosesau Safonol Syml</b>	Dylai prosesau caffael fod yn agored a thryloyw ac yn seiliedig ar dulliau safonol a dylent ddefnyddio systemau cyffredin sy'n lleihau cymhlethdod, cost, amserlenni a gofynion cyflenwyr mewn ffordd briodol.
<b>Cydweithredu</b>	Dylid mynd i'r afael â meysydd o wariant cyffredin ar y cyd gan ddefnyddio dulliau a manylion safonol a reolir gan y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (NPS) i leihau dyblygu, i gael yr ymateb gorau gan y farchnad, i wreiddio egwyddorion y Datganiad Polisi hwn er budd Cymru; ac i rannu adnoddau ac arbenigedd.
<b>Ymgysylltu â Chyflenwyr, ac Arloesi</b>	Dylid gwella deialog â chyflenwyr i helpu i gael y gorau o'r farchnad, i hysbysu ac addysgu cyflenwyr ac i sicrhau'r gwerth gorau am arian.
<b>Datblygu a Gweithredu Polisi</b>	Defnyddio polisi sy'n cefnogi cyflawni'r saith nod llesiant ar gyfer Cymru fel y'u nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015)
<b>Mesur ac Effaith</b>	Yn unol ag arferion rheoli da, dylid monitro perfformiad a chanlyniadau gwaith caffael i gefnogi gwelliannau parhaus a dylai enghreifftiau o arferion da a drwg gael eu rhannu'n agored.

## **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (DLICDC) yn canolbwyntio ar wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n gosod dyletswydd ar y Cyngor, a chyrrff cyhoeddus eraill, i feddwl yn y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a'i gilydd, ceisio atal problemau a dilyn dull gweithredu cyson. Bydd hyn yn cynorthwyo i greu cymuned lle rydym ni i gyd eisiau byw, yn awr ac yn y dyfodol. I wneud yn siŵr ein bod ni gyd yn gweithio tuag at yr un diben, mae'r Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant.

1. **Cymru lewyrchus**
2. **Cymru gydnerth**
3. **Cymru iachach**
4. **Cymru sy'n fwy cyfartal**
5. **Cymru o gymunedau cydlynus**
6. **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**
7. **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang**

'Nodau Llesiant' yw'r rhain i bawb yn y wlad weithio tuag atynt. Rhaid i Gyngor Rhondda Cynon Taf hefyd, yntau'n gorff cyhoeddus, ddangos eu bod yn gwneud penderfyniadau ac chymryd gweithredoedd er mwyn cynnal y nodau hyn. Mae hyn yn cynnwys gweithio ynghyd â chyrrff eraill er mwyn darparu gwasanaethau integredig, a chynnwys pobl yng ngwaith cynllunio, comisiynu, a darparu gwasanaethau.

Mae'n hanfodol i bob un o'r holl brosesau fod yn gadarn, a bod yr egwyddorion penodol yn cael eu cymhwysu mewn ffordd gyson a chydymffurfiol, a sicrhau fod y nodau yma yn dod yn gonglfaen i holl weithgaredd comisiynu a chaffael y Cyngor.

Mae chwe thema allweddol Strategaeth Gaffael 2017 - 2020 yn cynnwys ac ymdrin yn gynhwysfawr â'r holl egwyddorion wedi'u cynnwys fel rhan o Ddatganiad Polisi Caffael Cymru, ac â chyfarwyddiadau strategol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Strategaeth yma'n dystiolaeth i ddangos yn glir ymrwymiad y Gwasanaeth Caffael i gyd-drefnu ei weithgareddau caffael gan ystyried holl elfennau y gofynion ac anghenion polisi yma, a chynorthwyo'r amcanion darparu strategol Cymru gyfan ehangach a rhai Llywodraeth Cymru.

### **Arferion Cyflogaeth Foesebol mewn Cadwyni Cyflenwi**

Mae Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru '*Cyflogaeth Foesebol mewn Cadwyni Cyflenwi*' yn ymrwymo cyrrff cyhoeddus, preifat, a thrydydd sector i set o gamau sy'n mynd i'r afael ag arferion cyflogaeth anghyfreithlon ac annheg.

Mae cwmpas y Cod Ymarfer yn cynnwys caffael, dewis cyflenwyr, tendro, rheoli contract, a rheoli cyflenwyr, gyda helpu i sicrhau fod gweithwyr mewn cadwyni cyflenwi sector cyhoeddus yng Nghymru yn cael eu cyflogi mewn ffordd deg a moesegol yn nod iddo.



Bydd y Gwasanaeth Caffael yn datblygu Polisi Caffael Moesegol penodol, fel rhan o'n hymrwymiad i'r Cod Ymarfer, wedi'i gyd-drefnu i gyflawni'r ymrwymadau wedi'u pennu yn y Cod. Bydd y datganiad polisi yma yn adeiladu ar sail Datganiad Polisi Caffael Moesegol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, a gododd o adolygiad gan Bwyllgor Craffu Cyngor Rhondda Cynon Taf yn 2015.

Mae'r 12 ymrwymiad sydd â'r nod o ddileu caethwasiaeth fodern a chefnogi arferion cyflogaeth moesegol wedi'u nodi isod:

1.	<p>Llunio polisi ysgrifenedig ar gyflogaeth foesegol yn ein sefydliad ninnau ac yn ein cadwyni cyflenwi. Wedi inni lunio'r polisi hwn, byddwn yn ei rannu ar draws ein sefydliad ac yn ei adolygu'n flynyddol a monitro pa mor effeithiol ydyw. Fel rhan o hyn, byddwn yn:</p> <p>1.1 Penodi Hyrwyddwr Cyflogaeth Foesegol ac Atal Caethwasiaeth.</p>
2.	<p>Llunio polisi ysgrifenedig ar chwythu'r chwiban i rymuso staff i godi amheuan ynghylch arferion cyflogaeth anghyfreithlon ac anfoesegol, ac sy'n gosod cyfrifoldeb ar staff i adrodd am weithgarwch troseddol sy'n cael ei gynnal yn ein sefydliad ninnau ac yn ein cadwyni cyflenwi. Wedi inni lunio'r polisi hwn, byddwn yn ei rannu ar draws ein sefydliad. Byddwn yn adolygu'r polisi yn flynyddol ac yn monitro pa mor effeithiol ydyw. Byddwn hefyd yn:</p> <p>2.1. Darparu dull i bobl o'r tu allan i'n sefydliad godi amheuan ynghylch arferion cyflogaeth anghyfreithlon ac anfoesegol.</p>
3.	<p>Sicrhau bod pawb sy'n gysylltiedig â phrynu/ caffael, a denu a defnyddio gweithwyr yn cael hyfforddiant ar gaethwasiaeth fodern ac arferion cyflogaeth foesegol, a chadw cofnod o'r rhai sydd wedi cael hyfforddiant.</p>
4.	<p>Sicrhau bod arferion cyflogaeth yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses gaffael. Byddwn ni'n:</p> <p>4.1. Cynnwys copi o'n polisi ar gyflogaeth foesegol (Ymrwymiad 1) yn yr holl ddogfennaeth gaffael.</p> <p>4.2. Cynnwys cwestiynau priodol ar gyflogaeth foesegol mewn gwybodaeth dendro ac asesu'r ymatebion a ddaw i law.</p> <p>4.3. Lle y bo'n briodol, cynnwys elfennau o'r Cod fel amodau'r contract.</p> <p>4.4. Bob tro y ceir dyfynbris neu dendr anarferol o isel, gofyn i ymgeiswyr esbonio'r effaith y gallai costau isel ei chael ar eu gweithwyr.</p>
5.	<p>5. Sicrhau nad yw'r ffordd yr ydym yn gweithio gyda'n cyflenwyr yn arwain at ddefnyddio arferion cyflogaeth anghyfreithlon neu anfoesegol yn y gadwyn gyflenwi. Byddwn ni'n:</p> <p>5.1. Sicrhau nad oes pwysau diangen o ran costau ac amser yn cael eu gosod ar unrhyw un o'n cyflenwyr os yw hyn yn debygol o arwain at drin gweithwyr mewn modd anfoesegol.</p> <p>5.2. Sicrhau bod ein cyflenwyr yn cael eu talu ar amser – cyn pen 30 diwrnod o dderbyn anfoneb ddilys</p>
6.	<p>Disgwyl i'n cyflenwyr ymrwymo i'r Cod Ymarfer hwn er mwyn helpu i sicrhau bod arferion cyflogaeth foesegol yn cael eu cynnal drwy'r gadwyn gyflenwi gyfan.</p>
7.	<p>Asesu ein gwariant i ddod o hyd i faterion caethwasiaeth fodern, torri hawliau dynol ac arferion cyflogaeth anfoesegol, ac ymdrin â hwy. Byddwn ni'n:</p> <p>7.1. Cynnal adolygiadau rheolaidd o wariant a chynnal asesiad risg ar y canfyddiadau, i ddod o hyd i gynnyrch a/neu wasanaethau lle ceir risg o gaethwasiaeth fodern a/neu arferion cyflogaeth anghyfreithlon neu anfoesegol yn y DU a thramor.</p> <p>7.2. Ymchwilio i arferion unrhyw gyflenwr sydd wedi'i nodi fel risg uchel, drwy ymgysylltu'n uniongyrchol â'r gweithwyr lle bynnag y bo hynny'n bosibl.</p> <p>7.3. Gweithio gyda'n cyflenwyr i unioni unrhyw faterion yn gysylltiedig ag arferion cyflogaeth anghyfreithlon neu anfoesegol.</p>

	7.4. Monitro arferion cyflogaeth ein cyflenwyr risg uchel, gan wneud hyn yn eitem safonol ar yr agenda ar gyfer pob cyfarfod/adolygiad rheoli contractau.
<b>8.</b>	<p>Sicrhau na fydd unrhyw arferion hunangyflogi ffug yn cael eu cynnal ac na fydd cynlluniau mantell a chontractau dim oriau yn cael eu defnyddio'n annheg neu fel modd o:</p> <p>8.1. Osgoi, neu hwyluso osgoi, talu treth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol a'r isafswm cyflog perthnasol.</p> <p>8.2. Rhoi gweithwyr dan anfantais yn ddiangen o ran hawliau tâl a chyflogaeth, sicrwydd swyddi a chyfleoedd gyrfa.</p> <p>8.3. Osgoi cyfrifoldebau Iechyd a Diogelwch.</p>
<b>9.</b>	<p>Sicrhau bod gweithwyr yn rhydd i ymuno ag Undeb Llafur neu gydytundeb ac i ymgymryd ag unrhyw weithgaredd cysylltiedig a chodi pryderon gweithwyr heb berygl y byddant yn wynebu unrhyw fath o wahaniaethu yn eu herbyn. Byddwn ni'n:</p> <p>9.1. Peidio â defnyddio cosb-restri/rhestri o'r.</p> <p>9.2. Sicrhau nad yw ein cyflenwyr yn defnyddio cosbrestri/rhestri gwaharddedig.</p> <p>9.3. Peidio â llunio contract ag unrhyw gyflenwr sydd wedi defnyddio cosbrestri/rhestr waharddedig ac sydd wedi methu cymryd camau i unioni'r sefyllfa.</p> <p>9.4. Disgwyl i'n cyflenwyr sicrhau bod cynrychiolwyr Undebau Llafur yn gallu cael mynediad at aelodau a gweithwyr contract.</p>
<b>10.</b>	<p>Ystyried talu Cyflog Byw y Sefydliad Cyflog Byw fel isafswm i bob aelod o staff ac annog ein cyflenwyr i wneud yr un fath. Byddwn ni'n:</p> <p>10.1. Ystyried talu Cyflog Byw'r Sefydliad Cyflog Byw fel isafswm i'n holl staff yn y DU.</p> <p>10.2. Ystyried cael ein hachredu fel Cyflogwr Cyflog Byw.</p> <p>10.3. Annog ein cyflenwyr sydd wedi'u lleoli dramor i dalu cyflog teg i'w holl staff, a sicrhau bod staff sy'n gweithio yn y DU yn cael yr isafswm cyflog o leiaf.</p>
<b>11.</b>	<p>Llunio datganiad blynyddol ysgrifenedig yn amlinellu'r camau a gymerir yn ystod y flwyddyn ariannol, a'r camau gweithredu sy'n cael eu cynllunio, i sicrhau nad oes unrhyw achos o gaethwasiaeth na masnachu pobl yn unrhyw ran o'n sefydliad a'i gadwyni cyflenwi. Byddwn ni'n:</p> <p>11.1. Sicrhau bod y datganiad yn cael ei lofnodi gan uwch-reolwr/aelod o'r bwrdd.</p> <p>2.2. Cyhoeddi'r datganiad ar ein gwefan. Os nad yw hyn yn bosibl, byddwn yn darparu copi i unrhyw un cyn pen 30 o ddiwrnodau o dderbyn cais.</p>
<b>12.</b>	<p>Ar gyfer cyrff y sector cyhoeddus y mae'r Cod Ymarfer ar Faterion y Gweithlu (2014) yn berthnasol iddynt: Sicrhau bod y rheini sy'n gwneud gwaith ar gontract allanol yn cael eu trin yn deg ac yn gyfartal. Byddwn ni'n:</p> <p>12.1. Sicrhau bod staff y sector cyhoeddus sy'n cael eu trosglwyddo fel rhan o wasanaeth cyhoeddus sy'n cael ei drefnu'n allanol drwy drydydd parti yn cadw eu telerau ac amodau cyflogaeth.</p> <p>12.2. Sicrhau bod aelodau eraill o staff sy'n gweithio ar wasanaeth cyhoeddus sy'n cael ei drefnu'n allanol yn cael eu cyflogi ar delerau ac amodau tebyg i'r staff sydd wedi eu trosglwyddo o'r sector cyhoeddus.</p>

## **Crynodeb o'r Themâu Strategol**

Mae'r Strategaeth Gaffael i 2017-2020 yn ddibynnol ar gyflawni'r chwe thema strategol

- **Cynorthwyo gwaith cyflwyno blaenoriaethau craidd y Cyngor.**
- **Hwyluso adfywiad economaidd drwy waith caffael.**
- **Cydlafurio â phartneriaid mewnol ac allanol**
- **Darparu trefniadau llywodraethu mewnol effeithiol**
- **Hwyluso Caffael Electronig cost-effeithiol**
- **Gweithredu a chynorthwyo egwyddorion Polisi Caffael Llywodraeth Cymru, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a Chod Ymarfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi.**

Mewn amgylchedd caledi parhaus, cyllidebau llai, a thoriadau ar wariant, bydd adolygu parhaus ac allweddol ar sut mae'r Cyngor a'i wasanaethau cysylltiedig yn perfformio wrth ddarparu gwasanaethau i'w dinasyddion, cwsmeriaid, a chymunedau.

Mae gan y Gwasanaeth Caffael Corfforaethol rôl hanfodol wrth ofalu fod prosesau caffael a chomisiynu yn cyfrannu'n gadarnhaol at waith cyflawni blaenoriaethau ac amcanion Cynllun Corfforaethol y Cyngor.

Fydd dim modd gweithredu dulliau arloesol ac effeithiol tuag at gomisiynu a chaffel heb ymrwymiad a chymorth ein rhanddeiliaid ar bob lefel ym mhob rhan o'r Cyngor, a chymorth cyrff partner cydweithredol a chyflenwyr eraill. Bydd cydnabod a derbyn fod gwaith caffael yn swyddogaeth cefnogi a galluogi, a galluogi strategol sy'n cyfrannu yn gadarnhaol ac sy'n hybu gwaith cyflawni blaenoriaethau'r Cyngor yn allweddol bwysig i barhau â pherfformiad cadarnhaol gwasanaethu a chyflawni'r strategaeth yma.